

Bwrdd Strategol Gogledd Cymru Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Ym mis Mawrth 2018, bu i Fwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched, Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru gyhoeddi'r strategaeth ranbarthol gyntaf dan Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru:

Bod pobl Gogledd Cymru'n gallu byw bywydau diogel, cyfartal, di-drais, mewn cymunedau heb drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Gogledd Cymru'n cydweithio i fynd i'r afael â phob agwedd ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, wedi'i seilio o amgylch 6 amcan allweddol, yn sail i hynny ceir yr amcanion cenedlaethol sydd wedi'u corffori yn Neddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:

Atal

Amcan 1: Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.

Amcan 2: Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.

Amddiffyn

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.

Amcan 4: Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.

Darparu cefnogaeth

Amcan 5: Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Gogledd Cymru.

Cynnydd hyd yn hyn:

Amcan 1: *Mwy o ymwybyddiaeth a herio agweddau trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.*

- Caiff gwybodaeth a marchnata ar gyfer Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, yn ogystal â dogfennau cenedlaethol eu cefnogi a'u dosbarthu ar draws y rhanbarth.
- Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno ar draws gogledd Cymru, gyda 93 gweithiwr proffesiynol wedi'u hyfforddi i gyflwyno hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" ar draws yr Awdurdodau Lleol a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae criw arall wedi cael hyfforddiant gyda BIPBC. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod 2020/21 i bob gweithiwr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl ddiameddiffyn ar draws y rhanbarth.
- Mae is-grŵp Cydgomisiynu y Bwrdd Strategol yn cynnwys gwasanaethau 3^{ydd} Sector arbenigol, yn ogystal â chomisiynwyr o bob rhan o'r rhanbarth. Yn ystod argyfwng COVID19, mae'r grŵp wedi sicrhau fod gwasanaethau ar draws gogledd Cymru wedi parhau i gynnig rhaglenni yn rhithiol sy'n mynd i'r afael ag agweddau afiach i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys 'Intervention Hub' ar-lein, rhaglen newid ymddygiad sydd ar gael bob awr o'r dydd ar unrhyw ddyfais.

Amcan 2: *Mwy o ymwybyddiaeth mewn plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad treisgar yn anghywir bob amser.*

- Mae'r is-grŵp Dull Ysgol Gyfan yn gweithio'n agos â Chanolfan Profiadau Niweidiol a thîm Gweithredu'n Gynnar gyda'n Gilydd i sicrhau fod pob ysgol yn y rhanbarth yn gwybod am drawma, er mwyn cefnogi pob person ifanc sy'n cael eu heffeithio gan Drais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ogystal â Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn briodol.
- Mae gwasanaethau arbenigol ar draws y rhanbarth wedi'u comisiynu i gyflwyno ystod o raglenni yn cynnwys rhaglen Freedom, pecyn gwaith i wella o brofiadau niweidiol a STAR i blant a phobl ifanc.

Amcan 3: *Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.*

- Mae hyfforddiant o dan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn seiliedig ar ddeall pa weithred i'w gymryd ar ôl i ddioddefwr neu gyflawnwr ei ddatgelu. Mae awdurdodau perthnasol gogledd Cymru wedi derbyn yr hyfforddiant yma ac maent yn barod i'w gyflwyno ymhellach yn ystod 2020/21.
- O 20 Ebrill, mae gogledd Cymru wedi comisiynu darpariaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig rhanbarthol, gan arwain at wasanaeth mwy cyson a chydlynol. Bydd rheolwyr

Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau darpariaeth bob awr o'r dydd mewn partneriaeth gyda DAO ar alwad.

- Mae'r cynllun peilot ADAPT yn Ganolog yn parhau i fod yn llwyddiannus, gan adnabod troseddwy'r cyson iawn nad ydynt yn agored i Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg neu Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. Mae'r tîm amlasiantaeth yn edrych ar weithgareddau ymyrraeth a dargyfeirio yn ogystal â thynnu sylw at gyfleoedd am newid ymddygiad lle y bo'n briodol.
- Am y tro cyntaf, mae'r grŵp Cydgomisiynu wedi sicrhau y bydd yna sylw ar draws y rhanbarth o ymyrraethau seiliedig ar grŵp a newid ymddygiad ar-lein ar gyfer troseddwy'r cam-drin domestig yn 2020/21. Y rhaglen sy'n seiliedig ar grŵp yw Choose2Change gan Relate, a'r ddarpariaeth ar-lein yw'r *Interventon Hub* y mae timau Prawf ar draws y DU a thu hwnt yn ei ddefnyddio.

Amcan 4: *Gwneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth.*

- Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran cyflwyno peilot IRIS yng ngogledd Cymru. Mae'r Ymgynghorydd Rhanbarthol ac Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru yn gweithio gydag IRIS i'w weithredu, er mae dal angen cytuno ar gyllid.
- Mae gweithredu Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol "Gofyn a Gweithredu" wedi bod yn llwyddiannus, a bydd y gwaith o'i gyflwyno i dimau staff ar draws y rhanbarth yn dechrau ar ôl y cyfnod clo. Mae rhywfaint o sesiynau rhithiol yn cael eu treialu gyda'r bwriad o'u cynnig fel dewis arall.
- Mae plant a phobl ifanc wedi bod yn flaenoriaeth i Fwrdd Gogledd Cymru ac mae rhan o Grant Refeniw 2020/21 wedi cael ei glustnodi i gyflwyno'r gwaith yma. Mae Technoleg wedi'i ddiogelu i sicrhau y gall pobl ifanc mewn lloches gael mynediad at addysg/cefnogaeth gymdeithasol yn ystod y cyfnod clo, yn ogystal â galluogi rhai gwasanaethau i gynyddu eu capasiti staffio er mwyn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.
- Mae Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull Profiadau Niweidiol ar draws pob sector, ac mae bwrdd Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a thîm Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu.

Amcan 5: *Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael hyfforddiant i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr a goroeswyr.*

- Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wedi galluogi uwchsgilio holl ddarparwyr gwasanaeth, yn ogystal â sefydlu safon ansawdd ar gyfer yr holl ddarpariaeth. Mae gwasanaethau Gogledd Cymru wedi cyrraedd Grwpiau 4 a 5 o'r hyfforddiant.
- Mae hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynodod wedi cael ei gyflwyno ar draws Heddlu Gogledd Cymru a'i bartneriaid.

- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru a'r Ymgynghorydd Rhanbarthol yn gweithio mewn partneriaeth gyda HMCTS/Gwasanaeth Dioddefwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, i sicrhau bod hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar gael.

Amcan 6: *Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau gydag adnoddau addas, sydd o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n ymateb i rywedd, ar draws Gogledd Cymru.*

- Mae cydgomisiynu a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol iawn yng ngogledd Cymru ac mae wedi galluogi ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr, troseddwy, goroeswyr a'u teuluoedd yn y tymor byr, canolig a'r hir dymor.
- Mae darpariaeth Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig rhanbarthol bellach yn gyson ar draws y rhanbarth ac yn cynnig darpariaeth bob awr o'r dydd i ddioddefwyr risg uchel ar draws gogledd Cymru.
- Mae'r grŵp cydgomisiynu wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o gyllid Cyfalaf ar gyfer 8 uned ychwanegol ar draws y rhanbarthol. Mae'r rhain er mwyn ychwanegu at ddarpariaeth draddodiadol sy'n seiliedig ar loches ac maent ar gael i ddioddefwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, yn ogystal â'r rhai sydd ag anifeiliaid anwes, plant yn eu harddegau ac ati.
- Darparwyd cefnogaeth ychwanegol ar gyfer COVID 19 gan Lywodraeth Cymru i bob gwasanaeth arbenigol ar draws gogledd Cymru i sicrhau parhad ar gyfer gwasanaethau digonol a phriodol ym mhob maes, yn ogystal â PPE ac ati.
- Mae grŵp ffocws dioddefwyr wrthi'n cael ei lunio gan Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid.
- Mae MARACau wythnosol rhithiol wedi cael eu peilota yn gynnar yn 2020, gyda grŵp o weithwyr proffesiynol yn ystyried achosion o'r wythnos gynt ac yn gweithredu arnynt mewn modd amserol. Dim ond achosion mwy cymhleth sydd yna'n symud ymlaen i'r cyfarfod misol. Roedd hyn yn llwyddiannus iawn ac yn ystod 2010/21 bydd yn cael ei gyflwyno ar draws Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru.
- Hyfforddiant diweddaraf 'Safe Lives' i'r rhai sy'n mynychu Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg i sicrhau fod cyfrifoldebau yn cael eu deall a bod atgyfeiriadau yn briodol. Cafodd hyn ei oedi yn sgil COVID 19 ond bydd yn cael ei gynnig yn gynharach yn 2020.